



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhoi diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru:

Cynllun gweithredu lefel uchel
2021-2026

Rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun gweithredu lefel uchel – 2021-2026

Sut y byddwn yn rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru

Rhagair y Gweinidog

Bu newid pwysig yn y ffordd y mae Cymru yn mynd i'r afael â digartrefedd ers i'r pandemig ddechrau. Mae cysyniadau a ffyrdd o weithio wedi cael eu troi ben i waered mewn ffordd na ellid bod wedi'i dychmygu dros 20 mis yn ôl. Bu'n newid anodd ond angenrheidiol, gan ein galluogi i fynd ati o ddifrif i gyflawni ein nod hirdymor o roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.



Rwyf wedi ei gwneud hi'n gwbl glir na wnawn ddilyn trywydd gwahanol oherwydd mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai fod gan bawb do uwch eu pen.

Mae Cynllun Gweithredu Lefel Uchel Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn adeiladu ar Strategaeth Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd 2019, a gwaith ac argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen arbenigol ar Ddigartrefedd. Mae'n pennu cyfeiriad gwaith Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r argyfwng a gafodd ei greu gan y pandemig wedi rhoi cyfle unigryw inni gymryd camau breision a gwneud newidiadau radical i'r systemau a'r prosesau sy'n atal digartrefedd, gan ganolbwyntio'n bennaf ar gymryd camau ataliol cynnar mewn gwasanaethau cyhoeddus ac, ym maes tai, drawsnewid y dull o weithredu tuag at ailgartrefu cyflym.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi ein hymrwymiad i'r trawsnewid hwn fel rhan o gyfres o fesurau i atgyfnerthu ac adeiladu ein cymunedau. Drwy'r Cynllun Gweithredu lefel uchel hwn rydym yn cynnig newid radical fel bod y rhan fwyaf o achosion o ddigartrefedd yn cael eu hatal ac yn dod yn beth prin iawn; os bydd unrhyw un yn profi digartrefedd, byddwn yn disgwyl iddynt gael seibiant cyflym, gan olygu bod y profiad hwnnw yn un dros dro, a bydd y cymorth a roddir yn galluogi pobl i gael gafaél ar gartrefi addas, hirdymor a sefydlog fel na phrofir mwy o ddigartrefedd eto.

Ni fyddai modd inni wneud newid mor radical heb waith anhygoel y rheini mewn gwasanaethau digartrefedd a chymorth tai mewn awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a sefydliadau yn y trydydd sector. Mae'r ymdrechion hynny wedi cynnig gobaith, dechrau'r broses adfer ac, i lawer o bobl, ac – yn syml iawn – wedi cadw pobl yn fyw yn ystod y pandemig. Rwyf mor ddiolchgar am y gwaith hwn ac rwy'n benderfynol o adeiladu ar y llwyddiannau hyn.

Rwy'n gwerthfawrogi, i'n partneriaid sydd wedi cyflawni cymaint ers mis Mawrth 2020, y gall y Cynllun Gweithredu beri pryder o ystyried y math o drawsnewid rydym

am ei weld. Deallaf y pryderon hynny ac rwy'n benderfynol, lle bydd angen mwy o gymorth, y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu, fel rydym wedi'i wneud wrth fuddsoddi'r symiau mwyaf erioed yn y Grant Cymorth Tai a'r Grant Tai Cymdeithasol i helpu i gyflawni'r trawsnewid hwn.

Fodd bynnag, mae'r cyfrifoldeb am roi diwedd ar ddigartrefedd yn ymestyn y tu hwnt i'r timau a'r adrannau tai a digartrefedd dynodedig, gan adlewyrchu'r ffaith bod digartrefedd yn cael ei achosi gan ffactorau heblaw am argaeledd tai fforddiadwy a'r gallu i gael gafael arnynt. Rhaid inni fynd i'r afael â phroblemau strwythurol craidd tloedi ac anghydraddoldeb, a sicrhau bod mesurau atal cyffredinol a phenodol ar gael ac yn effeithiol. Rhaid inni ymateb yn effeithiol i drawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, salwch meddwl a chamddefnyddio sylweddau, a'r amrywiaeth lawn o anghenion tai, yn cynnwys pobl o leiafrifoedd ethnig a phobl anabl. Felly, mae'r gwaith o roi diwedd ar ddigartrefedd yn flaenoriaeth ar draws sectorau, yn berthnasol i iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg, cyfiawnder troseddol, gwasanaethau cymunedol a'n heconomi ehangach. Mae'r Cynllun Gweithredu yn cydnabod y materion hyn a bydd yn mynnu bod pob gwasanaeth cyhoeddus yn ymateb.

Mae natur uchelgeisiol y Cynllun Gweithredu hwn yn adlewyrchu pa mor gyflym y mae'n rhaid ymateb, a graddau'r ymateb hwnnw, er mwyn mynd i'r afael â'r lefel o ddigartrefedd yng Nghymru, gyda mwy na 6,900 o oedolion a phlant mewn llety dros dro ar hyn o bryd. Mae bod yn ddigartref yn effeithio ar hunan-barch a hyder unigolion. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i unigolion a theuluoedd wneud cyfraniad ystyrlon ac yn golygu na allant fanteisio ar gymorth anffurfiol a ffurfiol. Dyma pam mae'n bwysig ei atal yn y lle cyntaf a, lle mae'n digwydd, ddilyn trywydd ailgartrefu cyflym, lle caiff pobl gartrefi parhaol heb unrhyw oedi.

Bydd sicrhau bod mwy o dai ar gael, yn y sector rhentu cymdeithasol a'r sector rhentu preifat, yn hollbwysig er mwyn rhoi diwedd ar ddigartrefedd. Arweinir hyn gan ein rhaglen adeiladu tai cymdeithasol uchelgeisiol a fydd yn ein helpu i gyflwyno system ailgartrefu cyflym. Hefyd, rydym wedi ei gwneud hi'n fwy deniadol i landlordiaid preifat weithio gydag awdurdodau lleol er mwyn helpu i gartrefu'r rhai mwyaf anghenus drwy gyflwyno cynllun prydlesu sector rhentu preifat Llywodraeth Cymru yn genedlaethol. Ni fydd un dull na gweithred yn rhoi diwedd ar ddigartrefedd; yn hytrach rhaid inni ddefnyddio popeth sydd ar gael.

Yn ystod y pandemig rydym wedi gweithio gyda'n gilydd mewn ffordd benderfynol i gyflawni'r nod syml o sicrhau nad oes neb heb gartref. Nawr bydd angen inni gamu ymlaen, gyda'n gilydd fel arweinwyr a gweithwyr proffesiynol mewn gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru, gyda'r un nod o roi diwedd ar ddigartrefedd a gweithio i sicrhau bod gan bawb yng Nghymru fan diogel a phriodol i'w alw'n gartref.

Julie James

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

Cyflwyniad

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartefedd¹ [“y Strategaeth yn 2019”] ym mis Hydref 2019. Ar yr un pryd, comisiynwyd Grŵp Gweithredu arbenigol ar Ddigartrefedd i fynd i'r afael â nifer o gwestiynau allweddol er mwyn helpu i gyflawni ein nod tymor hwy o roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Aeth y Grŵp ati i ymgysylltu'n eang â'r rheini oedd â phrofiad uniongyrchol a rhanddeiliaid allweddol eraill, er mwyn llunio tri adroddiad² sy'n cynnwys amrywiaeth o argymhellion.

Pan gyhoeddwyd ail adroddiad y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, a'r un mwyaf cynhwysfawr, roedd y pandemig yn dechrau. Er bod effaith y pandemig wedi newid y dirwedd yn sylweddol ym mhob agwedd ar ein bywydau yng Nghymru, nid yw'r cyfeiriad strategol a nodwyd yn ein Strategaeth yn 2019, ac a gefnogir gan yr argymhellion yn adroddiadau'r Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, wedi newid. Nid yw'r pandemig wedi newid y newidiadau sylfaenol sydd eu hangen ar draws y system i roi diwedd ar ddigartrefedd, fel y'u nodir yn adroddiadau'r Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd; yn hytrach mae wedi eu cyflymu. Mae'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru drwy'r pandemig a'r broses drawsnewid a roddwyd ar waith yn ein gwasanaethau digartrefedd wedi'u llywio gan argymhellion y Grŵp Gweithredu.

Felly, mae'r cynllun gweithredu hwn ar gyfer pobl o bob oed, sy'n cwmpasu holl amrywiaeth pobl yng Nghymru, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn adeiladu ar y gwaith a ddechreuwyd gennym eisoes ac mae'n nodi'r camau gweithredu lefel uchel y byddwn yn eu cymryd dros y pum mlynedd nesaf. Nod y cynllun yw bod yn ddogfen fyw, a byddwn yn ei ddiweddarau bob blwyddyn i gofnodi'r cynnydd a wnaed ac i ddiweddarau camau gweithredu a nodi'r camau nesaf i'w cymryd.

Ymateb i'r Pandemig

Ar ddechrau'r cyfyngiadau symud cyntaf ym mis Mawrth 2020, rhoddwyd ymateb brys i ddigartrefedd ar waith. Fel rhan o hyn roedd cyllid ychwanegol ar gael, ynghyd â chanllawiau statudol ac anstatudol i sicrhau nad oedd neb heb lety, ynghyd â'r cymorth sydd ei angen arnynt i aros yn ddiogel yn ystod y pandemig.

Ers hynny, cymerwyd camau cynhwysol i sicrhau nad oes neb yn cael ei anwybyddu, a hyd yma mae awdurdodau lleol a'u partneriaid wedi cefnogi dros 15,300 o bobl mewn llety dros dro ers mis Mawrth 2020. Dengys y data diweddaraf³ fod 6,935 o bobl mewn llety dros dro ar ddiwedd mis Medi 2021, a bod 1,742 ohonynt yn blant dibynnol. Amcangyfrifir bod 128 o bobl yn cysgu allan yng Nghymru ym mis Medi 2021, gyda'r niferoedd yn cynyddu ychydig dros yr haf. Mae'r data sydd ar gael yn

¹ [Strategaeth ar ddigartrefedd | LLYW.CYMRU](#)

² [Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd: adroddiad Hydref 2019 | LLYW.CYMRU](#); [Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd: adroddiad Mawrth 2020 | LLYW.CYMRU](#); [Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd: adroddiad Gorffennaf 2020 | LLYW.CYMRU](#)

³ [Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan: Medi 2021 | LLYW.CYMRU](#)

fwy cywir a chyfredol nag erioed a rhydd ddealltwriaeth gliriach o bob math o ddigartrefedd yng Nghymru, a fyddai fel arall yn cael ei guddio drwy fynd o sofffa i sofffa, byw mewn cartrefi gorllawn neu fathau anghonfensiynol o anheddau.

Er bod y pwysau ar wasanaethau digartrefedd yn dal i fod yn uchel, gyda thua 1,000 o bobl yn cyflwyno eu hunain bob mis, mae deall graddau gwirioneddol digartrefedd yn rhoi cyfle unigryw inni wneud y newid radical sydd ei angen i fynd i'r afael ag ef. Mae'n cynyddu pwysigrwydd a natur ddybryd gwaith ataliol i atal pobl rhag byth profi effaith ddadsefydlogol digartrefedd. Mae'n cynyddu natur ddybryd a'r ddealltwriaeth o nifer y tai sydd eu hangen, yn y sector cymdeithasol a'r sector preifat, er mwyn cyflawni'r trawsnewid sydd ei angen i roi diwedd ar ddigartrefedd.

Cyfeiriad Strategol

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys dau gam gweithredu a fydd yn hanfodol er mwyn rhoi diwedd ar ddigartrefedd drwy ymrwymiad i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu cyflym ac adeiladu 20,000 o dai cymdeithasol carbon isel newydd i'w rhentu. Er mwyn rhoi diwedd ar bob math o ddigartrefedd yng Nghymru, gwyddom fod yn rhaid i ni ganolbwyntio llawer mwy o'n hamser a'n hadnoddau ar ei atal yn y lle cyntaf. Bydd llawer o bobl sy'n ddigartref neu sydd wedi profi digartrefedd wedi wynebu profiadau a rhwystrau cyffredin, yn cynnwys mathau gwahanol o wahaniaethu, ni fyddant yn gallu rheoli agweddau ar eu bywydau o ddydd i ddydd a byddant wedi profi diffyg cefnogaeth ar y cyd gan wasanaethau cyhoeddus. Mae'r camau gweithredu yn y cynllun hwn wedi'u cynllunio i roi'r amgylchedd a'r arferion gwaith cywir ar waith i staff a gwasanaethau gyflwyno ymyriadau a all wneud gwahaniaeth dros oes unigolyn, nid dim ond dros ychydig wythnosau.

Rydym yn ymrwymedig i symud i ffwrdd o'r model 'grisiau' o flaenoriaethu ar sail teilyngdod wrth ddarparu gwasanaethau. Fel rhan o'r broses drawsnewid, rydym am ail-lunio gwasanaethau yn seiliedig ar ddull ailgartrefu cyflym – gan symud ffocws ein polisi, ein hymarfer a'n hadnoddau tuag at atebion tai hirdymor, sefydlog yn hytrach na darparu gwasanaethau hostel, gwasanaethau argyfwng a gwasanaethau dros dro.

Diffiniad o ddigartrefedd

Mae'r diffiniad y mae'r Cynllun Gweithredu yn dibynnu arno wedi'i ddarparu gan Strategaeth 2019 a bydd yn darparu dealltwriaeth a chyd-destun ar gyfer meysydd polisi a nodir yn y Cynllun Gweithredu yn ogystal â'r camau gweithredu eu hunain:

Ystyr digartrefedd yw sefyllfa lle nad oes gan berson lety neu lle nad yw ei ddaliadaeth yn sicr. Cysgu allan yw pen mwyaf gweledol a difrifol y sbectrwm digartrefedd, ond mae digartrefedd yn cynnwys unrhyw un sydd heb lety, unrhyw un sy'n methu â chael mynediad i'w lety neu unrhyw un nad yw'n rhesymol iddo barhau i feddiannu llety. Byddai hyn yn cynnwys gorlenwi, 'mynd o sofffa i sofffa', dioddefwyr camdriniaeth a llawer o senarios eraill. Mae

rhywun hefyd yn ddigartref os yw ei lety'n strwythur symudol ac nad oes lle i'w osod.

Diffiniad o roi diwedd ar ddigartrefedd

Mae'r Strategaeth yn amlinellu dull Llywodraeth Cymru o roi diwedd ar ddigartrefedd. Mae'n seiliedig ar ddealltwriaeth bod digartrefedd, yng Nghymru, yn beth anghyffredin (a gaiff ei atal yn y rhan fwyaf o achosion) a, phan fydd yn digwydd, ei fod yn fyrhoedlog a bod yr unigolyn neu'r aelwyd yn cael ei helpu i gael llety eto yn gyflym ac yn cael ei gefnogi'n ddigonol er mwyn sicrhau nad yw'n mynd yn ddigartref eto, gan alluogi cartrefi i lwyddo nid methu.

Egwyddorion Polisi

Fel y nodir yn ein Strategaeth yn 2019, ategir ein dull gweithredu o ran atal digartrefedd gan nifer o egwyddorion ac rydym yn disgwyl i'r egwyddorion hyn fod yn sail i waith ein partneriaid cyflawni a chael eu hadlewyrchu ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r egwyddorion fel a ganlyn:

- Y mesurau atal cynharaf yw'r mwyaf effeithiol, y mwyaf cost-effeithiol, a'r rhai y dylid eu dewis gyntaf bob amser.
- Mae mynd i'r afael â digartrefedd a'i atal yn fater gwasanaethau cyhoeddus – yn hytrach na dim ond yn 'fater tai'.
- Dylai pob gwasanaeth sicrhau bod yr unigolyn wrth wraidd yr hyn a wna, a chydweithio mewn ffordd a gaiff ei llywio gan drawma.
- Ni ddylid troi at y dyletswyddau yn Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 tan fod popeth arall posibl wedi ei wneud yn gyntaf – a dylai pob gwasanaeth weithio yn ysbryd y ddeddf ac nid yn ôl llythyren y gyfraith yn unig.
- Dylai polisïau, ymarfer a'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu gael eu llywio a'u llunio mewn drwy gyd-gynhyrchu rhwng y rhai sydd â phrofiad uniongyrchol.

Cynllun Gweithredu

Mae penodau'r cynllun gweithredu yn nodi'r elfennau allweddol sy'n ofynnol i sicrhau bod digartrefedd yn rhywbeth prin, byrhoedlog ac na fydd yn cael ei ailadrodd. Caiff pwysigrwydd cyffredinol gweithio mewn partneriaeth hefyd ei gydnabod a'i bwysleisio drwy bennod benodol yn y cynllun. Yna, bydd yr elfennau hyn yn dod ynghyd i gyflwyno tabl o gamau gweithredu lefel uchel y byddwn yn eu cymryd yn y byrdymor, y tymor canolig a'r tymor hwy.

Cydraddoldeb, gwrthwahanïaethu a hawliau dynol

Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb, i roi dulliau gwrthwahanïaethu ar waith ac i hawliau dynol. Mae fframwaith cyfreithiol a fframwaith polisi cadarn er mwyn ategu hyn yng Nghymru, yn cynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a chynlluniau cydraddoldeb Llywodraeth

Cymru, yn cynnwys yn fwyaf diweddar datblygu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. Bydd cydraddoldeb, gwrthwahanïaethu a hawliau dynol yn sail i'r Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, gan gydnabod rhwystrau anghydraddoldeb, gwahaniaethu ac ymleiddio y mae grwpiau penodol yn llawer mwy tebygol o'u hwynebu. Mae hyn yn cynnwys y rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a'r rheini sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol ac mewn tlodi. Yn aml, bydd pobl yn wynebu sawl rhwystr a bydd 'rhyngblethedd' eu profiadau o anghydraddoldeb a'r canlyniadau gwaeth a geir yn sgil hyn yn llywio'r cynllun a'r canlyniadau y mae'n ceisio eu cyflawni. Bydd lleisiau'r rheini sydd â phrofiad uniongyrchol o ddigartrefedd yn allweddol yn hyn o beth.

Bydd asesiad parhaus ac ailadroddol o'r effaith ar gydraddoldeb, yn cynnwys effeithiau negyddol posibl ar grwpiau a phobl benodol, a chyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb ac ymgorffori dull datblygol o wireddu hawliau dynol pobl ym mhob rhan o'r cynllun.

'Partneriaethau'

Mae Strategaeth 2019 yn nodi'n glir na ellir atal digartrefedd drwy ddarparu tai yn unig, a bod gan bob gwasanaeth cyhoeddus a'r trydydd sector ran i'w chwarae, gan gydweithio i atal digartrefedd a, lle na ellir ei atal, sicrhau ei fod yn rhywbeth prin, byrhoedlog ac na fydd yn cael ei ailadrodd. Felly, rhaid i ddulliau gweithio mewn partneriaeth fod wrth wraidd popeth a wnawn.

Nid digartrefedd yw'r man cychwyn i bobl. Yn hytrach, mae'n digwydd o ganlyniad i gyfuniad o ddigwyddiadau bywyd andwyol a'r ffaith nad oedd y cymorth cywir ar gael ar yr adeg gywir, lle nad oedd camau ymyrryd yn gynnwys ar gael neu lle maent wedi methu. Gallai digwyddiadau andwyol o'r fath gynnwys colli anwyliad; salwch; colli swydd; cam-drin domestig; tor-perthynas; anghydfodau ymhlith aelodau'r teulu; a/neu ffactorau strwythurol fel tlodi, prinder tai fforddiadwy ac amodau anffafriol yn y farchnad lafur. Mae'r amgylchiadau hyn yn golygu bod unigolion yn agored i anghydraddoldebau canlyniadau, y mae digartrefedd yn fath eithafol ohonynt. Ym mis Awst 2020, canfu'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau⁴:

“Yn ystod y pandemig, mae ein tebygolrwydd o farw, colli swydd neu fynd ar ei hôl hi ym maes addysg wedi cael ei benderfynu'n rhannol gan ein hoedran, hil, rhyw, anabledd, incwm a ble rydyn ni'n byw. Mae'r feirws a'r ymateb iddo yn ehangu'r anghydraddoldebau presennol, a hynny drwy leihau incwm a chynyddu risgiau yn anghymesur i rai grwpiau o bobl”.

Gyda mwy na 15,300 o bobl yn cael eu cefnogi drwy ddarparu llety dros dro rhwng mis Mawrth 2020 a mis Medi 2021, mae graddau'r hyn a allai fod wedi cael ei

⁴ <https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld13403/cr-ld13403-e.pdf>

ystyried yn ddigartrefedd ac anghydraddoldeb cudd yng Nghymru ar un adeg wedi dod i'r amlwg.

Er mwyn atal digartrefedd, mae angen ymateb cyfannol sy'n seiliedig ar weithio mewn partneriaeth. Bydd camau ataliol yn digwydd ar adegau gwahanol, ond byddant yn dilyn continwwm, gan gynnig cyfleoedd i amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus a darparwyr gwasanaethau helpu, yn dibynnu ar y sefyllfa. Dangosir hyn drwy ddilyn pedair elfen ataliol, a nodir yn y Strategaeth, sy'n adlewyrchu cwmpas a dwyster gweithio mewn partneriaeth:

- Atal Sylfaenol – Atal neu leihau'r risg y bydd problemau'n codi, a hynny fel arfer drwy bolisiau cyffredinol, e.e. addysg; hybu iechyd; gwaith rheoli tai da a chymorth tenantiaeth.
- Atal Eilaidd - Targedu unigolion neu grwpiau sy'n wynebu risg uchel neu'n dangos arwyddion cynnar o broblem benodol er mwyn ceisio ei hatal rhag digwydd, e.e. atgyfeirio'n gynnar at wasanaethau cymorth i deuluoedd neu gymorth ieuenctid.
- Atal Trydyddol – Ymyrryd pan fydd problem wedi codi er mwyn ei hatal rhag gwaethygu ac unioni'r sefyllfa, e.e. dileu ôl-ddyledion rhent er mwyn osgoi achos o droi allan.
- Gwario Aciwt – Gwario arian er mwyn rheoli effaith sefyllfa negyddol iawn – prin y mae hyn yn gwneud unrhyw beth, os o gwbl, i atal problemau rhag codi eto yn y dyfodol, e.e. cost tai dros dro pan fydd pobl yn cael eu gwneud yn ddigartref; cost hirdymor cefnogi plant sydd wedi dioddef Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod o ganlyniad i golli cartref.

Nododd adroddiadau a luniwyd gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd nifer o faterion mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth i Lywodraeth Cymru a phartneriaid cyflawni atal digartrefedd fynd i'r afael â nhw, a grynhoir yn fras fel a ganlyn:

- Rhoi cyfeiriad strategol cliriach drwy fframwaith canlyniadau atal digartrefedd
- Creu gofod ar gyfer datgelu materion strategol
- Adolygu a gwerthuso strwythurau presennol ar gyfer partneriaethau
- Cymorth ymarferol i uno prosesau cyflawni a grymuso staff a gwella eu sgiliau (hyfforddiant PATH)
- Goruchwyllo/craffu strategol ac adrodd ar bolisiau ac arferion i atal digartrefedd
- Cynnwys pobl sydd â phrofiad uniongyrchol o ddigartrefedd wrth wneud penderfyniadau
- Gwella dealltwriaeth o ddigartrefedd a chamau gweithredu ataliol drwy well data a chyfathrebu/iaith

Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo drwy gydol y pandemig i atgyfnerthu trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn unol ag argymhellion y Grŵp Gweithredu. Sefydlwyd Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Gymorth Tai i

oruchwylio ac archwilio ac i roi cyngor ar faterion strategol. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu tîm o Reolwyr Cydberthynas i weithio'n agos gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru gyda'r nod o atgyfnerthu trefniadau gweithio mewn partneriaeth a chefnogi'r broses o roi polisi atal digartrefedd ar waith. Roedd y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar ddechrau'r pandemig yn galw am sefydlu celloedd cydgysylltu digartrefedd er mwyn gwella prosesau cydweithio rhwng partneriaid, rhannu arferion da a nodi'r ffordd orau o integreiddio blaenoriaethau er mwyn cyflawni amcanion atal digartrefedd. Mae'r holl gamau gweithredu hyn wedi atgyfnerthu trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn sylweddol ac wedi rhoi sail gadarn i adeiladu arni dros y pum mlynedd nesaf.

‘Prin’ – Mae sicrhau bod digartrefedd yn rhywbeth prin yn golygu atal pobl rhag dod yn ddigartref yn y lle cyntaf

Mae a wnelo'r rhan hon o'r Cynllun Gweithredu â gwaith ataliol ac mae'n amlinellu'r camau a gymerir i fynd i'r afael ag achosion digartrefedd. Dim ond drwy gymryd camau ataliol y gellir sicrhau bod digartrefedd yn beth prin.

Wrth wneud penderfyniadau o natur strategol, rhaid i gyrrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried materion penodol, yn unol â'u perthnasedd, fel rhan o'u dyletswyddau statudol tuag at gydraddoldeb, gan leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau ac o ran lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Mae polisiâu ac arferion sy'n gwella iechyd pobl, sy'n rhoi cyfleoedd i fanteisio ar gyflogaeth neu i gael cyflogaeth yn allweddol wrth atal digartrefedd ac adlewyrchu'r rôl ehangach a chwaraeir gan wasanaethau y tu allan i'r sector tai.

Fel rhan o fesurau ataliol eilaidd, gwyddom fod nodi pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd ar gam llawer cynharach a sicrhau bod yr ymateb priodol ar waith yn hanfodol er mwyn rhoi diwedd ar bob math o ddigartrefedd. Mae hyn yn arbennig o bwysig i bobl ifanc, lle mae cyfleoedd gwirioneddol i nodi ffactorau risg yn gynnwys pan fyddant o oedran ysgol a'r cyfle i roi strwythurau a gwasanaethau cymorth ar waith er mwyn sicrhau llwybr bywyd cadarnhaol sy'n golygu bod y siawns neu'r profiad o ddigartrefedd yn beth prin.

Mae rhai grwpiau ac unigolion penodol o fewn cymdeithas yn arbennig o agored i ddigartrefedd. Bydd eu nodweddion unigryw yn ogystal â'u hamgylchiadau neu eu profiadau uniongyrchol yn cyfrannu at lefel y risg a wynebir ganddynt. Ar gyfer y bobl hyn, bydd angen cymorth wedi'i dargedu a chymorth wedi'i deilwra ar adegau gwahanol, ynghyd â chamau gweithredu ataliol mwy cyffredinol er mwyn sicrhau bod y siawns neu'r profiad o ddigartrefedd yn brin. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y dylid canolbwyntio'n benodol ar 'lwybrau' presennol⁵ sy'n cael eu dilyn, rolau a chyfrifoldebau sefydliadau i helpu pobl i fyw'n annibynnol, gofynion hyfforddiant i wella diwylliant ac arferion a fframweithiau llywodraethu sy'n gweithredu ar lefelau cenedlaethol a lleol.

Archwiliodd adroddiadau'r Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd atal ar amrywiaeth o lefelau (argyfwng, wedi'i dargedu neu gyffredinol) gan gynnig nifer o argymhellion, y gellir eu crynhoi'n fras fel a ganlyn:

- Nodi cyfleoedd i wella arferion drwy ddarpariaeth gyfreithiol bresennol.
- Gwella arferion a'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a ddarperir.
- Hwyluso llwybrau i grwpiau sy'n wynebu risg o niwed (pobl sy'n gadael y carchar, pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, pobl â phroblemau

⁵ Mae llwybrau'n cynrychioli'r profiadau y mae unigolyn yn debygol o'u cael wrth iddo symud ymlaen o sefydliadau sydd wedi rheoli ei fywyd neu wedi effeithio ar y rheolaeth sydd ganddo dros ei fywyd.

corfforol/iechyd meddwl, cyn-aelodau o staff y Lluoedd Arfog, ffoaduriaid, ac ati.)

- Sicrhau bod y broses o adeiladu a chyflenwi tai yn cyd-fynd â'r galw ac anghenion y rheini sy'n profi digartrefedd neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd.
- Sicrhau bod gwasanaethau cynnal tenantiaeth cynhwysfawr ar waith gan yr awdurdod lleol, wedi'u cynllunio i ymateb yn rhagweithiol i faterion sy'n codi a allai arwain at bobl yn mynd yn ddigartref.
- Sicrhau bod camau gweithredu i leihau tlodi plant a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn cyd-fynd â pholisi ac arferion atal digartrefedd.
- Gwella strategaethau ac ymgyrchoedd cyfathrebu er mwyn gwella dealltwriaeth a chefnogi ymyriadau ar gyfer atal digartrefedd.

Yn yr un modd â threfniadau gweithio mewn partneriaeth, mae'r camau gweithredu a gymerwyd drwy'r pandemig wedi golygu bod amrywiaeth o gamau ataliol wedi'u cymryd. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â chamau ataliol wedi'u targedu. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau nas gwelwyd o'r blaen i gefnogi tenantiaid, i'w hatal rhag mynd yn ddigartref ac i'w helpu i aros yn eu cartref eu hunain. Yn ogystal â chymorth presennol, mae hyn wedi cynnwys:

- Mesurau cyfreithiol i atal pobl rhag cael eu troi allan rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Mehefin 2021;
- Mesurau cyfreithiol i ehangu cyfnodau rhybudd i chwe mis cyn y gellir dwyn achos llys a throi pobl allan ym mhob achos, fwy neu lai – hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2021;
- £4.1 miliwn i ychwanegu at gyllid yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai, er mwyn helpu'r rheini sy'n cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig â chostau tai sydd mewn ôl-ddyledion rhent;
- Cyllido Llinell Gymorth Dyledion y Sector Rhentu Preifat i gynghori a chefnogi tenantiaid yn y sector preifat sy'n cael anawsterau â'u rhent, eu hincwm a'u budd-daliadau tai; wedi'i darparu gan Gyngor ar Bopeth Cymru;
- Cyllid o £166 miliwn i awdurdodau lleol yn 2021-22 drwy'r Grant Cymorth Tai i ddarparu gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai (cynnydd o £40m o gymharu â'r flwyddyn flaenorol). Mae'r gwasanaethau yn helpu i atal pobl rhag mynd yn ddigartref, yn sefydlogi eu sefyllfa o ran tai, neu'n helpu pobl a allai fynd yn ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gadw.
- £10m o Grant Caledi i Denantiaid er mwyn helpu'r rheini sydd mewn ôl-ddyledion rhent o ganlyniad i'r pandemig;
- Arian i Shelter Cymru er mwyn rhoi cyngor a chymorth i denantiaid.

O ganlyniad i'r mesurau a roddwyd ar waith, mae camau i droi tenantiaid allan sy'n golygu eu bod yn mynd yn ddigartref wedi lleihau'n sylweddol yn ystod y pandemig. Roedd hyn hefyd oherwydd y ffaith bod yr awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn ystod y cyfnod hwn wedi addasu eu harferion ymhellach, gan atgyfnerthu'r ymrwymiad yr oedd llawer eisoes wedi'i wneud i gyfyngu ar gamau i droi tenantiaid allan a lle nad yw hynny'n bosibl, i

sicrhau nad yw camau o'r fath yn arwain at ddigartrefedd. Er bod y posibilrwydd o droi tenantiaid allan a'u gwneud yn ddigartref wedi'i atal oherwydd cyfyngiadau cyfreithiol, mae potensial y gellid cyrraedd mäs critigol, lle caiff polisi 'dim troi tenantiaid allan a'u gwneud yn ddigartref' ei fabwysiadu bron yn gyffredinol.

Mae'r mesurau brys a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig a'r camau gweithredu a gymerwyd gan awdurdodau lleol i sicrhau llety i bawb sy'n ddigartref, oherwydd y risgiau i iechyd y cyhoedd a achoswyd gan y pandemig, wedi arwain at gynnydd digynsail mewn camau gweithredu lefel aciwt a gwariant cysylltiedig. Ar gyfartaledd, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi £2 filiwn yn ychwanegol bob mis er mwyn sicrhau llety a chymorth i'r rheini sy'n profi digartrefedd, ac mae mwy na 14,300 o bobl wedi cael cymorth ers mis Mawrth 2020. Roedd yr ymateb hwn yn gynhwysol, ac oherwydd argyfwng iechyd y cyhoedd mae wedi cynnwys y rheini sydd heb hawl i gael arian cyhoeddus.

Gyda buddsoddiad ychwanegol o £50 miliwn, mae awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a phartneriaid yn y trydydd sector wedi ein helpu i gyflwyno cannoedd o gartrefi newydd parhaol a dros dro, yn ogystal â gwasanaethau cofleididol newydd ym meysydd cymorth tai, camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, gofal sylfaenol a diogelwch cymunedol. Er y bu'n rhaid cymryd camau mor ddwys oherwydd yr argyfwng iechyd cyhoeddus, ein nod yn y tymor canolig i'r hirdymor yw symud ein hadnoddau a'n ymateb tuag at weithgarwch atal cynharach.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod llacio'r cyfyngiadau symud yn peri risg i'r rheini sydd wedi dod o hyd i le i fyw yn ystod y pandemig, ond nad ydynt wedi dod o hyd i gartref diogel eto. Gan na chaiff digartrefedd ei atal yn y byrdymor, bydd y camau a gymerwyd a'r buddsoddiadau a wnaed yn ystod y pandemig, er mwyn cyflymu camau cychwynnol y broses drawsnewid hon, bellach yn canolbwyntio ar gynnal cyflymder yr ymateb i bobl sy'n colli eu cartrefi ac yn cynnig yr opsiynau gorau posibl sy'n diwallu eu hanghenion a'u dyheadau.

'Byrhoedlog' - sut y bydd ffocws cenedlaethol ar ailgartrefu cyflym yn arwain at Gymru lle mae digartrefedd yn beth byrhoedlog

Mae a wnelo'r rhan hon o'r Cynllun Gweithredu â gwneud digartrefedd yn fyrhoedlog drwy raglen drawsnewid. Y ffordd orau o gyflawni hyn yw drwy sicrhau bod y bobl sy'n ei brofi yn cael cartref sefydlog cyn gynted â phosibl yn hytrach nag aros mewn llety dros dro. Mae hyn yn dibynnu ar drawsnewid y system i ailgartrefu cyflym, ac rydym yn sylweddoli y bydd hyn yn cymryd sawl blwyddyn ac yn gofyn am fuddsoddi mewn amrywiaeth o wasanaethau.

Mae ailgartrefu cyflym yn ddull a gydnabyddir yn rhyngwladol sydd wedi'i gynllunio i sicrhau cartrefi diogel, sefydlog a hunangynhwysol i bobl sy'n profi digartrefedd cyn gynted ag y bo modd. Mae ailgartrefu cyflym yn cynnwys y nodweddion canlynol:

- Ffocws ar helpu pobl i gael llety parhaol, gan fynd i'r afael ag unrhyw anghenion cymorth eraill ar yr un pryd, yn hytrach na bod hynny'n digwydd wedyn.
- Dim gofyniad i gael asesiad ar gyfer 'parodrwydd i gael cartref' er mwyn sicrhau llety.
- Cynnig pecyn cymorth a chefnogaeth amlasiantaethol, wedi'u teilwra'n arbennig i anghenion unigol pan fo hynny'n ofynnol.
- Helpu pobl sy'n profi digartrefedd neu sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref sydd â llai o anghenion cymorth os o gwbl, ac wrth wneud hynny, atal anghenion cymhleth neu broblemau cronig rhag codi neu waethygu.

Mae ailgartrefu cyflym yn cydnabod y ffaith y gall y mwyafrif helaeth o bobl sydd wedi wynebu digartrefedd, hyd yn oed y rheini sydd wedi cael eu hymyleiddio'n ddifrifol ac sydd wedi bod yn ddigartref ers cryn amser, gynnal eu tenantiaethau mewn cartrefi hunangynhwysol, gyda'r lefel gywir o gymorth. Bydd darparu cartref cyn gynted ag y bo modd yn helpu i osgoi'r effeithiau dadsefydlogol ac ymyleiddiol sy'n gysylltiedig â bod yn ddigartref am gyfnodau hir neu gyfnodau hir o aros mewn lleoliadau brys neu leoliadau dros dro wrth barhau i fod yn ddigartref. Os gellir mabwysiadu prosesau ailgartrefu cyflym yn eang yna dylai'r angen am sawl math o lety dros dro leihau, er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd angen atebion tai dros dro ar adegau o hyd.

Rhaid i Tai yn Gyntaf a/neu opsiynau dwys eraill fod yn rhan allweddol o ddull ailgartrefu cyflym pob awdurdod ac yn benodol dylid eu mabwysiadu fel y dull diofyn ar gyfer y rheini y nodwyd bod ganddynt anghenion lefel uchel (h.y. bod angen mwy na 3 awr o gymorth yr wythnos arnynt).

Nod y cynllun gweithredu hwn fydd sicrhau mai ailgartrefu cyflym yw'r ymateb cyffredinol i unrhyw un sy'n wynebu digartrefedd neu sy'n wynebu risg uniongyrchol o ddigartrefedd. Bydd Tai yn Gyntaf yn cynrychioli un math o ailgartrefu cyflym ar gyfer pobl sydd ag anghenion cymorth lluosog a chymhleth yn ogystal â'u hangen o ran tai. Bydd hefyd angen i ni sicrhau y bydd yr holl wasanaethau yn parhau i roi cymorth i unigolion hyd yn oed pan fydd tenantiaethau wedi methu neu y byddai eu

hymddygiad fel arall wedi golygu eu bod yn cael eu gwahardd o'r gwasanaethau. Bydd y ffordd hon o weithio mewn modd nad yw'n feirniadol ac a gaiff ei llywio gan drawma yn hollol hanfodol wrth fabwysiadu dull ailgartrefu cyflym.

Rhaid i ni wrthod y temtasiwn i wanhau gwasanaethau Tai yn Gyntaf presennol o ystyried y galw ychwanegol o ganlyniad i fabwysiadu dull ailgartrefu cyflym neu wynebu risg y bydd methiannau'r gorffennol yn cael eu hailadrodd, ac y bydd rhai o'r dinasyddion sydd wedi'u hymyleiddio fwyaf ac sydd fwyaf agored i niwed yng Nghymru yn cael eu gadael heb wasanaeth a all ddiwallu eu hanghenion. O ganlyniad, ac i garfan benodol o bobl sy'n wynebu digartrefedd, Tai yn Gyntaf, a pheccynnau dwys eraill, fydd yr ymateb cywir ymysg sbectrwm o wasanaethau eraill.

Argymhellodd y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd y dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol arwain proses bontio i gynnal tenantiaethau ac ailgartrefu cyflym fel y dull diodyn i'r rheini sy'n profi digartrefedd neu'n wynebu risg o ddigartrefedd.

Datblygwyd y cam i symud i ddull cenedlaethol o ailgartrefu cyflym drwy gydol y pandemig, er ei bod yn bwysig cydnabod y bydd proses newid mor sylfaenol yn cymryd tair i bum mlynedd. Bydd y newidiadau hynny yn cynnwys gwaith gan awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau pontio i wasanaethau tai a digartrefedd o'r model presennol i'r dull ailgartrefu cyflym. Mae'n anochel y bydd y broses hon o ail-lunio gwasanaethau yn cymryd amser i ddatblygu cyflenwad digonol o dai er mwyn sicrhau'r cartrefi cywir yn y lle cywir ar yr adeg gywir i'r rheini sy'n profi digartrefedd neu'n wynebu risg o ddigartrefedd. Er mwyn helpu â'r gwaith hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellir datblygu cysylltiadau sy'n hyrwyddo'r defnydd o egwyddorion ailgartrefu cyflym er mwyn helpu awdurdodau lleol i'w hymgorffori yn eu harferion. Roedd y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i lywio'r gwaith cynllunio a'r cynigion fel rhan o gynllun Cam 2 sydd werth £50 miliwn, yn seiliedig ar ailgartrefu cyflym ac argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd. Buddsoddodd Llywodraeth Cymru yn y Rhaglen Tai yn Gyntaf (£1.9 miliwn yn 2021/22) dros nifer o flynyddoedd, ac, ynghyd â gwaith y Rhwydwaith Tai yn Gyntaf, mae wedi cyflwyno'r dull hwn ledled Cymru. Felly, er bod angen rhaglen drawsnewid sylweddol i sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol, cyllid a pholisi yn cefnogi ailgartrefu cyflym, mae sail gweithgaredd i adeiladu arni.

'Ddim yn Digwydd Eto' – Sicrhau bod gennym system sy'n rhoi'r bobl gywir yn y cartrefi cywir yn y cymunedau cywir gyda'r cymorth cywir, er mwyn i bobl lwyddo a ffynnu

Er mwyn i ddigartrefedd fod yn rhywbeth prin a byrhoedlog, rhaid cymryd camau hefyd i'w atal rhag digwydd eto. Mae'r rhan hon o'r Cynllun Gweithredu yn ymdrin â'r camau trawsnewidiol a fydd yn sicrhau nad yw digartrefedd yn digwydd eto. Mae'r cyflenwad o gartrefi ar gyfer aelwydydd sy'n profi digartrefedd neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd ac argaeledd cartrefi o'r fath yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni'r amcan hwn. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod yn rhaid cymryd pedwar cam tra phwysig.

- Sicrhau bod rhyngberthynas gref rhwng cynllunio strategol ar gyfer cyflenwi a datblygu tai ac anghenion aelwydydd sy'n ddigartref;
- Sicrhau bod y broses o ddyrannu cartrefi yn cyd-fynd â'r nod o roi diwedd ar ddigartrefedd ac yn ei gefnogi;
- Sicrhau bod llai o rwystrau i bobl sy'n wynebu digartrefedd y mae angen iddynt gael cartrefi yn y sectorau rhentu cymdeithasol a rhentu preifat;
- Sicrhau bod cymorth tai ar gael i'r rheini sydd ei angen i'w helpu i gynnal eu cartref a ffynnu ynddo.

Caiff y broses o bennu'r cyflenwad yng Nghymru ei harwain yn bennaf gan awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am nodi angen yn eu hardal. Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid drwy'r Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol i alluogi awdurdodau lleol i gefnogi eu blaenoriaethau tai fforddiadwy strategol. Caiff y broses o gyfrifo'r angen am dai ei nodi i ddechrau gan Asesiad o'r Farchnad Dai Leol). Mae awdurdodau lleol yn defnyddio'r dystiolaeth o'r Asesiad i ddatblygu eu prospectws sy'n crynhoi'r angen am dai a'r blaenoriaethau ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol yn eu hardal. Yna, bydd awdurdodau lleol yn gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a'u tîm datblygu eu hunain i gyflwyno cynlluniau, sy'n sicrhau y gellir diwallu'r angen lleol. Bydd hyn yn cynnwys llety er mwyn lleihau digartrefedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rôl bwysig y mae tai cymdeithasol yn ei chwarae o ran rhoi diwedd ar ddigartrefedd fel yr adlewyrchir yn nharged uchelgeisiol y Rhaglen Lywodraethu i adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel newydd i'w rhentu yn ystod tymor y Llywodraeth hon. Drwy'r ymrwymiad hwn, bydd cyfle i landlordiaid cymdeithasol ddarparu digon o dai o'r math a'r ansawdd cywir yn y lleoliadau cywir, i ddiwallu anghenion pobl sy'n ddigartref, neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd.

Mae ystadegau Llywodraeth Cymru yn nodi dull cymysg ledled Cymru mewn perthynas â dyrannu tai cymdeithasol i aelwydydd sy'n wynebu digartrefedd. Fel rhan o'r gwaith sylfaenol o ddiwygio er mwyn trawsnewid gwasanaethau digartrefedd, rydym yn ymrwymedig i adolygu'r broses ddyrannu, i adeiladu ar arferion da, a lle bo angen i'w diwygio er mwyn sicrhau ei bod yn cyd-fynd yn ddigonol â'r nod o roi diwedd ar ddigartrefedd ac yn cefnogi'r nod hwnnw.

Mae gan y sector rhentu preifat hefyd rôl bwysig i'w chwarae. Bydd cynllun prydlesu Sector Rhentu Preifat Llywodraeth Cymru yn atgyfnerthu cysylltiadau rhwng awdurdodau lleol a landlordiaid y sector preifat sy'n darparu llwybrau i aelwydydd digartref ddod o hyd i dai ac yn cynnig sefydlogrwydd a chefnogaeth ariannol i landlordiaid sy'n gallu cynnig tai i aelwydydd a enwebir gan yr awdurdod lleol. Un o brif amcanion y cynllun yw gwella mynediad i lety tymor hwy, o ansawdd da, i'r rheini sy'n profi digartrefedd neu'n wynebu risg o ddigartrefedd. Mae'r cynllun yn cynnig arian ychwanegol i sicrhau bod tenantiaid yn cael cymorth rheolaidd wedi'i deilwra sy'n anelu at sicrhau llwyddiant y denantiaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu lansio'r cynllun yn genedlaethol yn ystod yr hydref ac mae'n rhagweld y bydd yn adnodd defnyddiol fel rhan o ddull ailgartrefu cyflym awdurdodau lleol.

Mae'r bwriad i roi Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ar waith, fel y'i diwygiwyd yn ddiweddar i wella sicrwydd deiliadaeth, yn cynrychioli newid llwyr i'r gyfraith sy'n llywodraethu tenantiaethau a thrwyddedau preswyl yng Nghymru. Yn gyffredinol, bydd tenantiaid a thrwyddedeion landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol, sef 'deiliaid contractau' o dan y Ddeddf, yn cael 'contract diogel', yn seiliedig ar y denantiaeth ddiogel bresennol a gyhoeddwyd gan awdurdodau lleol. Fel arfer, caiff deiliaid contractau landlordiaid preifat 'gontract safonol', lle bydd ganddynt hawl i gael rhybudd o chwe mis o leiaf os bydd y contract yn dod i ben, a dim ond ar ôl chwe mis o fod wedi byw yno y gellir cyflwyno rhybudd o'r fath. Mae hyn yn golygu, ar yr amod nad yw deiliad contract yn torri ei gontract, y bydd ganddo hawl i fyw yno am flwyddyn o leiaf, sy'n dyblu sicrwydd deiliadaeth presennol yn y sector rhentu preifat i bob pwrpas. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys darpariaeth i atal achosion o droi tenantiaid allan er mwyn dial, i sicrhau bod anheddau yn addas i bobl fyw yno, ac i sicrhau bod pob deiliad contract yn cael contractau ysgrifenedig, er mwyn helpu i sicrhau eglurder ar hawliau a chyfrifoldebau landlordiaid a thenantiaid.

Tabl Camau Gweithredu Lefel Uchel

Rhif	Cam Gweithredu	Partneriaid cyflawni (cenedlaethol, rhanbarthol neu leol)	Amserlen (byr (<1 mlynedd), canolig (1-2 flynedd) neu hirdymor (>3 blynedd)	Adnodd sydd ei angen / a ddarperir
Trawsnewid y system ddigartrefedd				
1	<p>Datblygu a chyflawni cynlluniau pontio ailgartrefu cyflym ledled Cymru</p> <p>Awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau pontio ailgartrefu cyflym fel rhan o'u Strategaethau Rhaglen Grant Cymorth Tai. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn cyhoeddi canllawiau i gefnogi Awdurdodau Lleol yn y broses hon, yn ogystal â chynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau ymgysylltu er mwyn esbonio ac archwilio materion a heriau lle y gallai'r broses ailgartrefu cyflym fynd yn groes i bolisïau dyrannu presennol.</p> <p>Parhau i gefnogi'r gwaith o ehangu Tai yn Gyntaf ledled Cymru a sicrhau ei fod yn gywir</p>	<p>Awdurdodau Lleol / Llywodraeth Cymru / landlordiaid cymdeithasol cofrestredig</p> <p>Bydd Awdurdodau Lleol yn arwain y gwaith hwn gan gydweithio â phartneriaid sy'n darparu tai.</p>	<p>Byrdymor – cynlluniau pontio ailgartrefu cyflym ar waith erbyn diwedd mis Medi 2022 (drafft erbyn diwedd mis Mehefin 2022)</p> <p>Tymor Byr/ Canolig – Grŵp Gorchwyl a Gorffen o randdeiliaid allweddol yn cael ei sefydlu o dan Fwrdd Cynghori Cenedlaethol i gefnogi'r gwaith</p>	<p>Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi canllawiau i ALLau i helpu i lunio eu cynlluniau pontio ailgartrefu cyflym. Darperir cymorth parhaus lle bo angen drwy swyddogion polisi a rheolwyr cydberthynas Llywodraeth Cymru.</p> <p>Hyblygrwydd o fewn y Grant Cymorth Tai ar gyfer adnodd ALI i gefnogi gwaith cynllunio a phontio</p> <p>Rhaglen Tai yn Gyntaf £1.9m Grŵp Gorchwyl a Gorffen AGC i nodi unrhyw adnoddau sydd eu hangen i wneud y gwaith yn effeithiol</p>

2	<p>Cefnogi'r ymateb brys parhaus a'r broses bontio i ailgartrefu cyflym</p> <p>Llywodraeth Cymru i gynnal y trefniadau tai brys (iechyd y cyhoedd), datblygu canllawiau a chyfeiriad mewn perthynas â'r broses bontio i ailgartrefu cyflym a rhoi'r modd i awdurdodau lleol adolygu a datblygu eu gwasanaethau tai a digartrefedd er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gwaith ailgartrefu cyflym.</p>	<p>Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, partneriaid yn y Trydydd sector</p> <p>Llywodraeth Cymru fydd y prif arweinydd, gan annog partneriaid eraill i ymgysylltu yn y gwaith hwn</p>	<p>Byrdymor – cyllid i Awdurdodau Lleol yn 2021/22 drwy'r Gronfa Caledi i Awdurdodau Lleol ar gyfer ymateb brys parhaus. Canllawiau ar gynlluniau pontio ailgartrefu cyflym wedi'u datblygu a'u cyhoeddi.</p> <p>Tymor canolig – cynlluniau pontio Awdurdodau Lleol ar waith ac yn cael eu gweithredu</p>	<p>Cyllideb y Grant Cymorth Tai wedi cynyddu £40m yn 2021-22 (gan greu cyfanswm o £166.7m) i gydnabod y lefel o anghenion cymorth nas diwallwyd yn flaenorol.</p> <p>£10m ychwanegol ar ben elfen digartrefedd y Gronfa Galedi ar gyfer Ch3 a Ch4 o 2021-22</p> <p>£2m ychwanegol ar gyfer mesurau atal digartrefedd dewisol</p>
3	<p>Datblygu a chyhoeddi Papur Gwyrdd yn archwilio diwygiadau deddfwriaethol gofynnol</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn gwerthuso'r ddarpariaeth gyfreithiol gyfredol ar gyfer atal digartrefedd ac yn adolygu meysydd i wella'r gyfraith, er mwyn cynnal y dull o sicrhau 'nad oes neb yn cael eu gadael allan' a weithredwyd drwy gydol y pandemig a sicrhau bod pob gwasanaeth cyhoeddus yn cydweithio i atal digartrefedd. Caiff</p>	<p>Llywodraeth Cymru – gan ymgysylltu ag amrywiaeth o bartneriaid</p>	<p>Byrdymor – Papur Gwyrdd i gael ei gyhoeddi yn 2022</p>	<p>Llywodraeth Cymru yn sefydlu grŵp arbenigol o randdeiliaid i helpu i ddatblygu'r gwaith diwygio deddfwriaethol posibl.</p> <p>Swyddogion polisi a chyfreithwyr Llywodraeth Cymru fydd yn bennaf cyfrifol am ddatblygu'r Papur Gwyn, a byddant yn ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid.</p>

	<p>y gwaith hwn ei ddatblygu i ddechrau drwy Bapur Gwyrdd, gan archwilio opsiynau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol.</p> <p>Bydd hyn yn cynnwys ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Angen Blaenoriaethol - Bwriadoldeb - Dyraniadau - Achosion o Droï Pobl Allan - Cysylltiad lleol - Addasrwydd - Dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus - Dull sy'n seiliedig ar hawliau 			<p>Caiff asesiad effaith rheoleiddiol, gan gynnwys asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, ei ddatblygu ochr yn ochr â chynigion deddfwriaethol i ddarparu'r amcangyfrifon gorau o effaith debygol diwygiadau posibl.</p>
4	<p>Cynyddu'r cyflenwad o dai, eu hargaeledd a'u hygyrchedd yn y sector cymdeithasol a'r sector preifat</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, Rhentu Doeth Cymru ac eraill i gynyddu'r cyflenwad, yr argaeledd a'r hygyrchedd ar draws y ddau sector – gan sicrhau y caiff anghenion y rheini sy'n profi digartrefedd eu hadlewyrchu yn y prosesau ar gyfer asesu angen, datblygu a darparu cartrefi ychwanegol ac o fewn trefniadau dyrannu.</p>	<p>Llywodraeth Cymru (drwy'r targed o 20k), Awdurdodau Lleol gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn rheoli sut mae cysylltiadau datblygiadau tai yn adlewyrchu'r boblogaeth ddigartref.</p>	<p>Byrdymor – mwy o gyllid. 2021-22 – Cyllid Grant Tai Cymdeithasol wedi dyblu bron i £250m er mwyn cefnogi cynnydd yn y ddarpariaeth.</p> <p>Tymor Byr/ Canolig – cyflwyno Cynllun Prydlesu'r Sector Rhentu Preifat yn genedlaethol</p> <p>Hirdymor – darparu 20,000 erbyn diwedd tymor y llywodraeth</p>	<p>£250m wedi'i ddyrannu yn 2021/22 i'r Grant Tai Cymdeithasol</p> <p>Darperir refeniw o £262,000 a chyllid cyfalaf o £170,000 yn 2021/22 i gefnogi'r gwaith o gyflwyno cynllun prydlesu'r sector rhentu preifat yn genedlaethol, gyda hyd at £66.3m wedi'i neilltuo ar gyfer y gwaith hwn dros y 10 mlynedd nesaf.</p>

	<p>Caiff 20,000 o gartrefi cymdeithasol newydd eu hadeiladu i'w rhentu o fewn tymor presennol Llywodraeth Cymru, a fydd, ynghyd â phrydlesu cartrefi gan landlordiaid preifat, yn helpu i leddfu'r pwysau ar wasanaethau tai i bobl sy'n profi digartrefedd neu'n wynebu risg o ddigartrefedd.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rôl hanfodol y bydd angen i landlordiaid preifat ei chwarae er mwyn helpu i roi diwedd ar ddigartrefedd a bydd yn mynd ati gyda'r sector i nodi'r rhwystrau cymdeithasol y gellir eu dileu neu'r cyfleoedd y gellir eu cymryd i gynyddu a chynnal eu cyfraniad.</p>			
5	<p>Datblygu gweithlu cadarn a werthfawrogir, ac a gydnabyddir am ei arbenigedd</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu gwaith ar y cyd â phartneriaid i ddatblygu fframwaith recriwtio, hyfforddi a datblygu'r gweithlu ar gyfer staff digartrefedd a chymorth tai. Bydd y gwaith hwn yn hyrwyddo'r sector fel gyrfa ac yn ystyried sut y gallwn roi dull wedi'i</p>	<p>Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a phartneriaid cyflenwi gwasanaethau</p>	<p>Byrdymor – Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol o dan Fwrdd Cynghori Cenedlaethol i arwain datblygiad y gwaith</p> <p>Tymor canolig i'r hirdymor – cyflawni a gweithredu'r fframwaith</p>	<p>Grŵp Gorchwyl a Gorffen i nodi unrhyw adnoddau sydd eu hangen i wneud y gwaith yn effeithiol</p>

	lywio gan seicoleg ar waith ar draws gwasanaethau tai. Bydd y fframwaith yn tynnu sylw at y modd rydym yn dylanwadu ar ddiwylliannau ar draws strwythurau llywodraethu, ariannu a chomisiynu yn ogystal â thimau rheng flaen yn y sector.			
6	<p>Mabwysiadu dulliau allgymorth grymusol ledled Cymru</p> <p>Awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau atal digartrefedd i sicrhau bod gan weithwyr allgymorth yr adnoddau a'r gallu i helpu pobl i symud o gysgu allan i lety priodol ar y cyfle cynharaf.</p>	<p>Awdurdodau Lleol</p> <p>Bydd Awdurdodau Lleol yn arwain y cam gweithredu hwn gan gydweithio â phartneriaid sy'n darparu tai a'r rheini sy'n cefnogi gwasanaethau tai yn fwy cyffredinol.</p>	Byrdymor i'r tymor canolig	£166.7m o Grant Cymorth Tai wedi'i ddarparu yn 2021/22, a all gael ei ddefnyddio gan ALLau i dalu am wasanaethau allgymorth, a hyfforddiant ar gyfer staff a ariennir gan GCT.
7	<p>Atgyfnerthu Gwasanaethau Cymorth Tai</p> <p>Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i sicrhau bod fframweithiau ariannu a chomisiynu yn sicrhau bod gwasanaethau cynnal tenantiaeth cynhwysfawr ar waith, wedi'u cynllunio i ymateb yn rhagweithiol i faterion, wrth iddynt godi, a allai arwain at bobl yn mynd yn ddigartref.</p>	<p>Awdurdodau Lleol</p> <p>Bydd Awdurdodau Lleol yn arwain y gwaith hwn gan gydweithio â phartneriaid sy'n darparu tai a'r rheini sy'n cefnogi gwasanaethau tai yn fwy cyffredinol.</p>	<p>Byrdymor – cyllid i'r Grant Cymorth Tai – cynnydd o £40m i £166.7m yn 2021/22. Adolygu canllawiau GCT**</p> <p>Tymor canolig – Canllawiau diwygiedig fel sydd angen i atgyfnerthu gwasanaethau cymorth</p>	£166.7m o Grant Cymorth Tai wedi'i ddarparu yn 2021/22 i Awdurdodau Lleol gynllunio a chomisiynu gwasanaethau cymorth yn ymwneud â thai, gan gynnwys gwasanaethau sy'n cefnogi cynnal tenantiaeth.

	Ni ddylai gwasanaethau gael eu cyfyngu i dai yn unig a chânt eu hehangu'n fwy cyffredinol, gan gydnabod natur integredig y ffactorau sy'n dylanwadu ar ddigartrefedd. Er mwyn ymateb yn effeithiol, bydd angen dull sy'n canolbwyntio ar y person sy'n cwmpasu amrywiaeth o sectorau.			
--	---	--	--	--

Rhif	Cam Gweithredu	Partneriaid cyflawni (cenedlaethol, rhanbarthol neu leol)	Amserlen (byr (<1 mlynedd), canolig (1-2 flynedd) neu hirdymor (>3 blynedd)	Adnodd sydd ei angen / a ddarperir
Atal				
8	<p>Sicrhau cysondeb â pholisïau ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a pholisïau i fynd i'r afael â thlodi</p> <p>Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y broses o ddatblygu gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru wedi'i chynllunio i leihau tlodi, yn cynnwys tlodi plant, ac i hyrwyddo diogelwch ariannol ac annibyniaeth a'i bod yn cyd-fynd â pholisïau ac arferion atal digartrefedd.</p>	<p>Llywodraeth Cymru (Polisi Tai, Mynd i'r afael â thlodi, lechyd a Gofal Cymdeithasol, Camddefnyddio Sylweddau/lechyd Meddwl)</p> <p>Llywodraeth Cymru fydd y prif arweinydd, gan annog partneriaid eraill i ymgysylltu yn y gwaith hwn</p>	Byrdymor – adolygu adnoddau a'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn y maes hwn	Adolygiad i asesu adnoddau cyfredol a nodi bylchau lle mae angen buddsoddi ymhellach

9	<p>Gwella mesurau ymyrraeth gynnar a mesurau atal wedi'u targedu</p> <p>Awdurdodau lleol i atgyfnerthu systemau ar gyfer nodi pobl ifanc sy'n wynebu risg o ddigartrefedd yn llawer cynharach. Sicrhau bod cymorth addas ar waith ar gyfer y rheini a nodir.</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio i ddatblygu, diwygio neu wella'r broses o roi llwybrau ar waith â chymorth wedi'i deilwra, ymyriadau priodol a datrysiadau tai ar gyfer grwpiau sy'n wynebu risg o niwed (plant sy'n wynebu risg o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, pobl sy'n gadael y carchar, y rhai sy'n ffoi rhag trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, pobl ethnig leiafrifol, pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, pobl anabl, yn cynnwys y rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl a'r rhai sydd ag anableddau dysgu, cyn-aelodau o staff y Lluedd Arfog, ffoaduriaid, ac ati.) Yn sgil hyn, bydd gwasanaethau cyhoeddus yn mabwysiadu polisi dim rhyddhau i</p>	<p>Llywodraeth Cymru (Polisi Tai, Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol, Camddefnyddio Sylweddau/Iechyd Meddwl), Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi/Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Awdurdodau Lleol</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn arwain ar hyn a bydd yn dibynnu ar sefydliadau partner sydd â chyfrifoldeb gweithredol i gyflawni mewn perthynas â'r cam gweithredu hwn.</p>	<p>Byrdymor i'r tymor canolig – Pobl Ifanc: Dull integredig yng Nghynllun Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cymru Mireinio'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid er mwyn gwella'r gwaith o nodi pobl ifanc sydd mewn perygl ar gam cynnar Parhau i fuddsoddi mewn Cydgysylltwyr Pobl Ifanc Ddigartref</p> <p>Pobl sy'n gadael y carchar: Datblygu a gweithredu strategaeth ar y cyd â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, CLILC a Llywodraeth Cymru</p> <p>Gwaith ataliol wedi'i dargedu ar gyfer grwpiau eraill: Datblygu, diwygio neu wella'r gwaith o gyflwyno llwybrau â chymorth wedi'i deilwra, ymyriadau priodol a datrysiadau tai</p>	<p>£3.7m o'r Grant Atal Digartrefedd ar gyfer y Grant Cymorth Ieuenctid er mwyn cefnogi gwaith adnabod cynnar.</p> <p>£762,977 Darparu llety i'r rhai sy'n gadael y rhaglen carchardai</p>
---	--	---	---	--

	ddigartrefedd. Dylai mesurau gydnabod pa mor ddybryd yw'r angen a rhoi cymorth ar fyrder pan fydd hynny'n ofynnol.			
10	<p>Adolygu a diwygio darpariaeth cyfryngu teuluol i sicrhau darpariaeth effeithiol a chyson ledled Cymru</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o wasanaethau cyfryngu teuluol gyda'r nod o ddatblygu dull sy'n sicrhau darpariaeth effeithiol a chyson ledled Cymru i helpu teuluoedd ar gam cynharach.</p>	<p>Llywodraeth Cymru</p> <p>Llywodraeth Cymru fydd y prif arweinydd, gan annog partneriaid eraill i ymgysylltu yn y gwaith hwn fel rhan o'r broses adolygu.</p>	<p>Byrdymor - Trosglwyddo cyllid ar gyfer gwasanaethau cyfryngu teuluol i'r Grant Cymorth Tai a datblygu canllawiau atodol</p> <p>Tymor canolig - Adolygu'r ddarpariaeth ledled Cymru</p>	£373,000 o gyllid ar gyfer cyfryngu teuluol sydd o fewn y Grant Atal Digartrefedd ar hyn o bryd
11	<p>Gwella arferion a'r gwasanaethau a ddarperir i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a/neu niwroddatblygiadol</p> <p>Byddwn yn parhau i gefnogi ein camau gweithredu allweddol yn y cynllun cyflawni iechyd meddwl i sicrhau bod cymorth iechyd meddwl wedi'i deilwra'n benodol ar gael i unigolion reoli tenantiaethau yn annibynnol, ac i gefnogi'r broses o dreialu dulliau newydd o weithio</p>	Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol a'r Trydydd sector	Byrdymor – Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iechyd a Thai yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol o dan Fwrdd Cyngori Cenedlaethol i arwain y gwaith datblygu a gweithredu	Grŵp Gorchwyl a Gorffen i helpu i sefydlu unrhyw oblygiadau o ran adnoddau

	<p>mewn partneriaeth er mwyn cefnogi pobl sy'n cysgu allan a phobl sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd.</p> <p>Drwy raglen ymchwil, byddwn yn nodi ac yn mapio'r sbectwm o unigolion ac anghenion gwahanol pobl sy'n profi digartrefedd. Bydd hyn yn cynnwys meithrin dealltwriaeth well o'r grwpiau gwahanol o bobl (er enghraifft y rheini sy'n defnyddio ysgogyddion, tawelyddion neu opioidau) a'u hanghenion o ran iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, yn ogystal â'r rhai â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i atgyfnerthu llwybrau at wasanaethau a fydd yn helpu i atal digartrefedd neu fynd i'r afael ag ef.</p>			
12	<p>Gwella arferion a'r gwasanaethau a ddarperir i bobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau yn cynnwys y rheini sydd â phroblemau iechyd meddwl ar yr un pryd</p> <p>Er na fydd gan lawer o bobl sy'n profi digartrefedd neu sy'n wynebu</p>	<p>Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal, Byrddau Iechyd, Awdurdodau lleol a'r Trydydd sector</p>	<p>Byrdymor – Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iechyd a Thai yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol o dan Fwrdd Cynghori Cenedlaethol i arwain y gwaith datblygu a gweithredu</p>	<p>£166.7m o Grant Cymorth Tai wedi'i ddarparu yn 2021/22, a all gael ei ddefnyddio gan ALLau i sicrhau bod lefel ddigonol o gymorth cofleidiol ar gael i gefnogi'r rhai ag anghenion cymhleth i gynnal tenantiaethau.</p>

	<p>risg o ddigartrefedd problemau camddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl, gall digartrefedd arwain at bwysau sy'n ei gwneud hi'n anodd cynnal tenantiaeth.</p> <p>Byddwn yn parhau i gefnogi ein camau gweithredu allweddol yn y cynlluniau cyflawni camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl i gefnogi pobl ddigartref. Bydd hyn yn cynnwys dysgu o'r £1m mewn Anghenion Cymhleth rydym wedi'i ddarparu i bedwar cynllun peilot yng Nghymru sy'n cefnogi'r gwaith hwn yn benodol. Caiff gwaith datblygu pellach ei arwain drwy ein grŵp At Wraidd y Mater sy'n cefnogi gwelliannau yn y ddarpariaeth i'r rheini sy'n wynebu problemau camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl ar yr un pryd.</p>			<p>Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi bron £55m bob blwyddyn mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Mae darparu cymorth a thriniaeth ar gyfer pobl sy'n profi digartrefedd yn flaenoriaeth yn y cynllun cyflawni.</p>
--	---	--	--	---

Rhif	Cam Gweithredu	Partneriaid cyflawni (cenedlaethol, rhanbarthol neu leol)	Amserlen (byr (<1 mlynedd), canolig (1-2 flynedd) neu hirdymor (>3 blynedd)	Adnodd sydd ei angen / a ddarperir
Camau cefnogol cyffredinol				

13	<p>Datblygu Fframwaith Canlyniadau Digartrefedd newydd</p> <p>Caiff y canlyniadau digartrefedd yn y fframwaith eu cynllunio fel bod fframweithiau polisi eraill yn cael eu hintegreiddio a'u bod yn cyfrannu'n weithredol at y broses o'u cyflawni.</p>	<p>Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, partneriaid tai yn y Trydydd Sector</p> <p>Llywodraeth Cymru fydd y prif arweinydd, gan annog partneriaid eraill i ymgysylltu yn y gwaith hwn</p>	<p>Byrdymor i'r tymor canolig</p> <p>Datblygu polisi – rhwng nawr a mis Mai 2022</p> <p>Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yn Anffurfiol - rhwng nawr a mis Mai 2022</p> <p>Ymgynghoriad ffurfiol – Mehefin 2022</p> <p>Lansio – Diwedd 2022</p> <p>Gwerthuso – Chwe mis ar ôl ei lansio</p>	<p>Caiff y gwaith ei gyflawni drwy Grŵp Gorchwyl a Gorffen Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cymorth Tai, swyddogion polisi a swyddogion yn y sefydliadau perthnasol.</p> <p>Ystyrir y goblygiadau o ran adnoddau i'r sefydliadau sy'n cyfrannu ar y cam datblygu.</p> <p>Bydd angen adnodd ymgysylltu a chyfathrebu unwaith y bydd y Fframwaith wedi'i ddatblygu.</p> <p>Bydd angen adnodd gwerthuso unwaith y bydd y Fframwaith yn weithredol.</p>
14	<p>Adolygu a diwygio'r broses o gasglu data i gefnogi'r fframwaith canlyniadau newydd</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn gwerthuso'r trefniadau a'r gofynion presennol ar gyfer casglu data, boed yn statudol neu'n anstatudol ar draws digartrefedd a chymorth tai er mwyn sicrhau eu bod yn</p>	<p>Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a phartneriaid cyflenwi tai</p> <p>Llywodraeth Cymru fydd y prif arweinydd,</p>	<p>Byrdymor – gwaith i ddechrau</p> <p>Tymor canolig – unrhyw drefniadau casglu data statudol newydd i gyd-fynd â diwygiadau deddfwriaethol</p>	<p>Ystyrir y goblygiadau o ran adnoddau a chynhelir asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb fel rhan o'r gwaith o ddatblygu unrhyw ofyniad newydd neu ofyniad wedi'i newid o ran data statudol.</p>

	dangos cynnydd yn glir ac yn gywir tuag at roi diwedd ar ddigartrefedd a chefnogi'r fframwaith canlyniadau newydd	gan annog partneriaid eraill i ymgysylltu yn y gwaith hwn		
15	<p>Sefydlu rhaglen gyfathrebu i leihau stigma a gwella dealltwriaeth o achosion digartrefedd a ffyrdd o'i ddatrys</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu rhaglen gyfathrebu barhaus sy'n cyd-fynd â'r Fframwaith Canlyniadau gyda'r nod o ail-fframio canfyddiadau cyffredinol ynghylch digartrefedd a chefnogi'r gwaith o gyflwyno'r dull polisi. Dylai'r rhaglen gynnig ffocws cenedlaethol, ond dylai fod yn addas i'w haddasu ar gyfer materion / cynulleidfaedd rhanbarthol penodol, gan gynnwys pobl ifanc, lle y bo'n bosibl, fel rhan o elfennau o ddysgu ac addysg, yn ogystal â dulliau cyfathrebu ehangach ar gyfer oedolion. Byddwn yn sicrhau bod y rhaglen gyfathrebu yn hygyrch i'r rhai â gofynion mynediad.</p>	<p>Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a phartneriaid cyflenwi tai</p> <p>Llywodraeth Cymru fydd y prif arweinydd, gan annog partneriaid eraill i ymgysylltu yn y gwaith hwn.</p>	<p>Byrdymor – ymgyrch gyfathrebu newydd Llywodraeth Cymru i gael ei chomisiynu yn ystod hydref 2021</p> <p>Tymor canolig – sefydlu rhaglen gyfathrebu</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo £250,000 o'r Gyllideb Atal Digartrefedd yn 2020/21 i gefnogi'r gwaith hwn.</p> <p>I ddechrau cyflawnir y gwaith hwn drwy swyddogion polisi a swyddogion o fewn sefydliadau perthnasol, ond bydd hefyd yn cynnwys arbenigwyr cyfathrebu. Bydd elfen hanfodol o'r gwaith yn gofyn am fewnbwn pobl sydd wedi profi digartrefedd.</p>
16	Grymuso pobl sydd â phrofiad uniongyrchol i ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer	Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Landlordiaid Cymdeithasol	Byrdymor i'r tymor canolig	Darperir adnoddau drwy gyllidebau gweinyddol y priod bartneriaid

	<p>Llywodraeth Cymru i roi cyfleoedd i bobl sydd â phrofiad uniongyrchol i ddylanwadu ar bolisi yn y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol a thrwy bartneriaid</p> <p>ALLau, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a'r trydydd sector i ddatblygu dulliau o gynnwys pobl sydd â phrofiad uniongyrchol yn y gwaith o ddylunio, recriwtio, cyflenwi a gwerthuso gwasanaethau</p>	<p>Cofrestredig, y Trydydd Sector</p>		
--	---	---------------------------------------	--	--